ATODLEN 7

SYMUD TRAWSFFINIOL YN Y DU O WASTRAFF PERYGLUS

**Llwythi trawsffiniol y DU allan o Gymru**

**5.**—(1) Pan fo llwyth trawsffiniol allan o Gymru yn cael ei draddodi i fangre yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon, mae'r gofynion canlynol yn gymwys yn ychwanegol at y rhai yn Rhan 6.

(2) Cyn i'r gwastraff peryglus gael ei symud—

(a) rhaid i gynhyrchydd neu ddeiliad y gwastraff peryglus, yn ôl fel y digwydd, neu (yn achos amlgasgliad o wastraff peryglus) y cludwr, sicrhau—

(i) bod copi o'r nodyn traddodi perthnasol wedi'i baratoi ar gyfer SEPA (pan fo'r gwastraff i'w draddodi i draddodai yn yr Alban), neu ar gyfer Adran yr Amgylchedd yng Ngogledd Iwerddon (pan fo'r gwastraff i'w draddodi i draddodai yng Ngogledd Iwerddon); a

(ii) bod copi ychwanegol yn cael ei ddarparu ar gyfer y traddodai.

(b) rhaid i'r copïau o'r nodyn traddodi perthnasol a baratowyd yn unol â pharagraff (a) gael eu cwblhau yn unol â Rhan 6; ac

(c) rhaid i'r traddodwr (neu'r cynhyrchydd neu'r deiliad, yn ôl fel y digwydd), neu yn achos amlgasgliad o wastraff peryglus, y cludwr, anfon y copi o'r nodyn a baratowyd yn unol â pharagraff (a)(i) at yr awdurdod perthnasol o leiaf 72 awr cyn symud y llwyth neu, os nad yw hynny'n bosibl, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl hynny.

(3) Rhaid i'r cludwr sicrhau bod y copi ychwanegol o'r nodyn a baratowyd ar gyfer traddodai yn teithio gyda'r llwyth ac yn cael ei roi i'r traddodai wrth draddodi'r llwyth.